# Amserlen Penderfyniadau

## Panel Trwyddedu (Tacsi)

**I BOB AELOD CYNGOR DINAS CASNEWYDD**

**Atodlen Penderfyniadau a gyhoeddwyd ar 3 Awst 2021**

Gwnaeth y Panel Trwyddedu Tacsis y penderfyniadau canlynol ar **3 Awst 2021**, a ddaeth i rym ar unwaith.

Cynghorwyr: Kate Thomas (Cadeirydd), Tom Suller, Janet Cleverly

**Rhan 2**

**Eitemau Eithriedig neu Gyfrinachol**

Mae'r eitemau canlynol yn cynnwys gwybodaeth gyfrinachol neu eithriedig fel y'i diffinnir yn Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. Felly, nid yw adroddiadau a phapurau cefndir sy'n ymwneud â'r penderfyniadau hyn i'w cyhoeddi ac maent yn ddarostyngedig i ddarpariaethau'r Ddeddf fel y maent yn ymwneud â chylchrediad i'r wasg a'r cyhoedd.

**LIC PAN 07/21**

**Trwyddedau Llogi Preifat / Cerbydau Hacni**

**Penderfyniad**

Gyrrwr BF

Nid oedd yr ymgeisydd yn gallu bod yn bresennol oherwydd rhesymau technegol, felly gohiriwyd ei wrandawiad.

Gyrrwr FA

Trafododd y panel yr achos a chytunwyd eu bod yn credu bod y gyrrwr yn difaru ei weithredoedd a'i fod wedi dysgu ei wers i fod yn fwy gofalus. Roedd y panel yn deall bod y gyrrwr wedi profi llawer iawn o straen ynglŷn â'r digwyddiad hwn ac yn hyderus ei fod wedi pasio'r prawf person addas a phriodol.

Roedd y panel am roi rhybudd i'r gyrrwr ynglŷn â'r methiant i adrodd y drosedd i'r adran drwyddedu. Roedd y panel am gyfleu pwysigrwydd gyrwyr yn adrodd unrhyw newidiadau i'w trwydded cyn gynted ag y gallant.

**Ymgynghoriad**

Ddim yn berthnasol.

**Gweithredir gan:** Pennaeth y Gyfraith a Rheoleiddio
**Amserlen Weithredu:** Ar unwaith

---